

OWAIN TRAIN MCGILVARY

I'm finally using my body for
what I feel like it's made to do

16.04.22 – 14.08.22

Dim Iaith

Dylan Huw

Mewn rhyfeddod, rwyf ti'n canfod bod gen ti ddim iaith.

Ganwyd "Piece of Me", trac rhif dau ar albym Britney Spears, **Blackout** (2007), allan o foment o dywyllwch a dinistr y mae ein diwylliant poblogaidd yn dal i deimlo'i ôl-efeithiau. (Nid oes angen imi ailadrodd yr amodau anffodus a phenderfyniadau creulon a arweiniodd at y foment blacowt honno, na'r saga a ddilynodd; er nad yw llawer o'r themâu sy'n cwmpasu'r naratif honno'n amherthnasol i gynnwys y ffilm yr wyf ar fin treulio'r testun hwn yn ei thrafod: awdurdod patriarchaidd, actifyddu casglebol, hiraeth am fyd mwy cyfiawn.)

Mae oeuvre Britney'n llawn hanesion o garcharu a dihangfeydd amhosib, o rwystredigaeth ar orfod bod yn gorff dan wylidwraeth ddi-ildio'r byd bob eiliad o bob dydd. Ond efallai mai "Piece of Me" yw'r fwyaf brathiog-benodol ohonynt i gyd. Mae ei chytgan, sydd bron yn ddeuawd gyda'r cydsgwennwr Robyn, yn cyflwyno'r gantores yn canfod grym o ecsbloetiaeth annynol ei chorff a'i bywyd. Dyma gân am ffod yn gorff (a bod yn ddynes cis) pan mae'r corff (a'r rhywedd) hwnnw wedi'i wasgu'n ddirugaredd gan strwythurau dydd-i-ddydd sy'n gwrthod gadael i chi fyw. Mae'n amhosib bron i unrhyw un adnabod eithafedd bywyd yn y ffordd yr oedd Britney'n ei fyw yn yr adeg yna, ac felly dim ond crafu'r wyneb gallwn ei wneud wrth geisio mynegi sut byddai'n teimlo. Mae yna fath arbennig o electropop tywyll o'r cyfnod sy'n portreadu'r math penodol hwnnw o ddistryw mewn ffyrdd sy'n neud rhyw synnwyr seedy. Pa ffurfiau celfyddydol a moddau esthetig a naratif eraill allai dorri trwy gyfyngiadau iaith bob dydd yn y ffordd yma, i fynegi sut mae'n teimlo i dorri'n rhydd o'r pwysau a'r disgwyliadau sydd wedi'u gosod allan gan amodau cymdeithasol; sut mae'n teimlo i fyw?

Mae atseiniau o "Piece of Me", yn taro'n erbyn waliau rhyw ofod anghyfarwydd, ymhlith y synau cyntaf i ni glywed yn ffilm newydd Owain McGilvary, penllanw proses mwyaf hir-dymor a chydweithredol yr artist mor belled. Mae teitl y ffilm, sy'n deillio o linell gan Raven Struthers, (yn para-ddyfynnu o'r gyfres Glow ar Netflix,) yn datgan agwedd tra-iwtopaidd y ffilm at ei themâu o rymuso corfforol a rhywedd-ewfforia: I'm finally using my body for what I feel like it is made to do. Er mai eiliadau'n unig a glywn o "Piece of Me" yng nghefnidir diegetig y ffilm, mae egni candryll y gân yn gyflwyniad addas at ffilm sy'n archwilio cwestiynau ynghylch lle mae'r personol a'r cyhoeddus yn cwrdd; sut gall camp ac artiffis fynegi gwirioneddau anodd; a photensial hyper-berfformiadwyedd fel modd o ryddhad radical.

(Digwydd bod, roedd myfyrdodau telynegol ar lais Britney Spears – llais sydd wedi diffinio sain ein canrif ifanc gymaint ag unrhyw un arall – yn ganolog i Speakable Things (2018), ffilm Freya Dooley a hefyd ddangosodd yn Chapter. Defnyddiodd ffilm Freya yr ysgrif 'The Gender of Sound' gan Anne Carson mewn modd digon tebyg i sut mae Owain yn dod â testun Kathy Acker, 'Against Ordinary Language: The Language of The Body' mewn i ddeialog gyda'i sefyllfa ddogfen.)

Mewn syndod, mae modd ffeindio dy hun heb iaith.

Y corfforol, y casglebol, a'r chwantau sy'n eu clymu at ei gilydd: dyma rai o'r ymholiadau sy'n araf-adeiladu cynnwys ffilm Owain, portread fideo hanner-awr o'r Renegades, grwp o reslwyr benywaidd ac anneuaidd sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn ne Glasgow, lle mae Owain hefyd yn byw. Byddai galw'r ffilm yn lafur cariad yn tan-ddatgan pa mor

drwchus yw ei hethos o agosatrwydd ddemocrataidd a chydweithredol. Yn I'm finally using my body... safbwyntiau a phrofiadau byw aelodau'r grwp a amlygir, mewn dilyniant o gyfweiliadau i'r camera lle mae eu hawster yng nghwmni'r artist yn gwbl glir. Mae'r moddau y mae'r ffilm yn blaenoriaethu'r cydweithredwyr eu hun yn cynnig mewnwleidiad i 'lais' yr artist ymholgar a hael hwn, sydd fel petai'n gosod ei ddiddordebau thematig craidd – o gwmpas ffurfiau amrywiol ar undodau a pherformiadau queer, a'r regimes ieithyddol a phensaernïol sy'n eu sylfaenu – yn rhan o estheteg ffres gyda phob darn o waith, gan gynnwys paentiadau newydd sy'n cael eu harddangos yng nghaffi-bar Chapter.

Beth fyddai'n golygu i fod heb iaith, without (a) language, go iawn? Mae ffilm Owain yn llunio llinellau rhwng yr hyn mae'n olygu i gael [i fod yn] gorff dynol sy'n anadlu a theimlo, a'r cyfyngiadau sydd ar ieithoedd yr ymennydd, y tafod a'r enaid i geisio eu mynegi. Mae geiriau serch hynny yn ran ganolog o eirfa weledol y ffilm; mae darnau gwreiddiol o destun gan yr artist a dyfyniadau o ysgrif Kathy Acker yn ymddangos ar y sgrîn fel trobwyntiau pwysig. Ac wrth wylïo'r ffilm hefyd, mae geirfaoedd penodol byd reslo, sy'n estron i fi, yn holl-bresennol, gan gyfeirio'n anuniongyrchol at ba mor bwysig y bu creu geirfaoedd casglebol i grwpiau llai-breintiedig yn hanesyddol. Tra bo testun Kathy Acker yn archwilio gramadegau a lecsicons y corff dynol gan dynnu ar ei phrofiadau o'r byd bodybuildio, mae ffilm Owain yn fwy tyner-awgrymog, yn defnyddio geiriau i gynnig ambell i botensialrwydd sy'n codi o gymeriad clòs y Renegades yn unig. Mae'r hyn y gall profiadau pur gorfforol eu mynegi, fel rhan o gasgliad o gyrff mewn gofod, sydd y tu hwnt i fynegiant iaith, yn dod yn un o brif gwestiynau'r ffilm.

[Caf fy atgoffa o foment yn Time is the Thing a Body Moves Through gan T Fleischmann, lle mae sylwad off-the-cuff gan gyfaill y protagonist, yn sôn am sut mae bod gyda phobl eraill yn ein cysylltu â'n

tirweddau emosiynol ein hunain, yn sbarduno myfyrdodau ar y cwmni mae iaith ei hun yn ei roi i ni: Can you be alone with language? What a dream that would be, what a nightmare.]

Gyda sgôr wreiddiol y grwp pync queer Comfort, mae'r moments rhain o ail-wyrio geiriol yn dod â rhyw fawrhydi ecstatig i naws lo-fi, sgysiol gweddill y ffilm. Er nad yw hunaniaethau rhyweddol na rhywioldebau'r reslwy'r yn dod yn rhan o gynnwys arwynebol y ffilm, mae'r modd y mae Owain a'i gydweithredwyr yn haenu cyfeiriadau a dyfyniadau yn cynnig amrywiaeth o bosibiliadau queer i'r gwylwr. Mae'r ffilm yn dod yn ran o sgwrs barhaus gyda rhwydweithiau o berfformio queer a ffeministaidd sy'n ymestyn ymhell, bell o dde Glasgow.

Mewn dieithrwch, dwi'n ffeindio fy hun heb iaith i'w siarad.

Yn 'I Can Only Dream of Reaching', ysgrif sgwennodd Owain ar gyfer pedwerydd rhifyn Cynfas gydag Amgueddfa Cymru y llynedd, mae'n symud rhwng y Gymraeg a'r Saesneg i sgwennu am y rôl chwaraeodd côds ieithyddol a diwylliannol yn ei siwrne queer bersonol ef: "To be queer for me is to embody resilience. You already know how to read the set of codes and signifiers that appeal to your desires. A queer focused archive is how vocabularies are refined, made clearer, to know that your eyes aren't deceiving you." Yn yr ysgrif hwnnw, dyfynna Owain Susan Sontag fel sail i'w grwydriadau hunan-gofiannol o gwmpas profiadau ffurfiannol o fodoli mewn gofodau queer, gan dynnu ar wahanol ffynonellau artistig, ffotograffig a llenyddol, nid yn anhebyg i sut mae I'm finally using my body..., mewn cyfrwng gwahanol iawn, yn raddol adeiladu collage eangfrydig wedi ei ddaearu ym merthynas yr artist gyda'r Renegades.

Mae gan ffilm Owain ragflaenydd (arall) yn Sherri (2021), ffilm-berfformiad fer ddangosodd yn rhan o Wyl Experimentica yma yn Chapter y llynedd. Cyd-weithiodd Owain yn agos ar honno gyda Lily Ross-Millard, artist berfformio yn Glasgow, i greu teyrnged tragicomic i Sensational Sherri, y reslyr eiconig a ddioddefodd yn niwyllyant misogynistaidd y maes ac epidemig cyffuriau presgripsiwn America. Yn y ddwy ffilm, sy'n ddarnau efaill mewn ffordd er gwaetha'u harddulliau a thonfeydd gwahanol iawn, mae Owain yn pentyrru clwstwr o gyfeiriadau ac arsylwadau'n ymwneud â'r byd reslo, a'i berthynas â pherfformiadau bob-dydd o rywedd, corfforoldeb a rhyddid. Mae esthetig ddogfennol foesegol gadarn, lle mae agwedd gydweithredol ar fenthg a dyfynnu yn eglur, yn ganolog i'r ddwy ffilm hon, ac yng ngwaith Owain mewn disgyblaethau y tu hwnt i'r ddelwedd symudol hefyd. Rwy'ti'n gorffen gwyllo I'm finally using my body... yn awchu i fynd a dilyn rhai o'r llwybrau mae wedi cyflwyno i ti fel gwylwr; falle i gysylltu â rhywun y gwnes di unwaith rannu rhyw gyfeillgarwch agos, gorfforol gyda nhw; neu falle byddi wedi dy sbarduno i fatryd dy ddillad gwaith ac ymuno â rhyw grŵp cymunedol yn rhywle—ddim yn bell, dim ond i lawr y ffordd—i dreulio amser fel un corff arall ymhlith llawer, a gwerthfawrogi'r holl bethau y mae cyrff yn eu gwneud.

Sgwennwr yw Dylan Huw sy'n byw yn Nhreganna, Caerdydd. Mae'n gweithio'n ddwyieithog ar draws beirniadaeth, ffuglen a phrosiectau cydweithredol, yn aml i archwilio themâu ynghylch cyfieithu, bodolaeth queer, ecoleg ac ymarferion casglebol. Mae'n rhan o raglen Cymrodorion Cymru'r Dyfodol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn enillydd Ysgoloriaeth Geraint George 2020/1, ac yn Sgwennwr Preswyl gyda Jerwood Arts. Mae'n gweithio gyda Peak Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu Pegwn, rhaglen artistig yn archwilio dyfodolau ieithyddol Cymru. Mae wedi sgwennu testunau'n ddiweddar i Flash Art International, O'r Pedwar Gwynt, MOSTYN, Dortmunder Kunstverein, Artes Mundi ac Amgueddfa Cymru, ac mae'n sgwennu colofn fisol ar gelfyddydau Cymraeg ar y wê yn Barn. Gydag Elin Meredydd ac Esyllt Angharad Lewis, mae hefyd yn rhedeg mwnwgl, sy'n comisiynu sgwennu arbrofol a phrosiectau artistig ar gyfer ffurf print. Magwyd yn Llanfihangel Genau'r Glyn, Ceredigion, ac mae ganddo MA o adran Visual Cultures coleg Goldsmiths, Prifysgol Llundain. dylanhuw.com